Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Egwyddorion sy'n cefnogi gwaith adfer a gwella mewn cynnig datblygu morol neu arfordirol

**Rhif cyfeirnod:**

Nodyn canllaw 059

**Perchennog y ddogfen:**

Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae’r ddogfen hon yn nodi ein dull o roi cyngor ar gynnwys elfennau adfer neu wella mewn cynnig datblygu morol neu arfordirol.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Y gynulleidfa darged yw staff mewnol, datblygwyr, a phenderfynwyr sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu morol ac arfordirol.

## Manylion cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

Tîm Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol (helen.bloomfield@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk )

## Hanes y fersiynau

| Fersiwn o’r ddogfen | Dyddiad | Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | [03-2022] | Cyhoeddwyd y ddogfen |

Dyddiad adolygu: [03-2024]

I roi gwybod am faterion neu broblemau ynglŷn â'r canllaw hwn, **cysylltwch â’r Tîm Datblygu Canllawiau**

# Cyflwyniad

Un o swyddogaethau CNC yw darparu cyngor (statudol ac anstatudol) ar sut y gallai deddfwriaeth, polisïau, cynlluniau a datblygiadau newydd effeithio ar amgylchedd morol Cymru.

Ein nod yw darparu cyngor morol a fydd yn **dylanwadu'n gadarnhaol** ar waith polisi, cynllunio, datblygu a gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio’n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae adfer a gwella amgylcheddau morol ac arfordirol yn cael sylw cynyddol gan ystod eang o randdeiliaid, o weithgareddau sy’n canolbwyntio ar fioamrywiaeth i elfennau o gynllunio datblygu ehangach. Mae CNC yn gweithio i ddatblygu tystiolaeth, cyngor a chanllawiau i gefnogi gwaith adfer a gwella morol ac arfordirol, gan gydnabod y cyfleoedd ar gyfer darparu buddion amgylcheddol a chymdeithasol lluosog.

**Mae’r ddogfen hon yn nodi ein dull o roi cyngor ar gynnwys elfennau adfer neu wella mewn cynnig datblygu morol neu arfordirol,** yn unol â’n hegwyddor cyngor morol cyffredinol gyntaf: bydd ein cyngor morol yn rhagweithiol ac wedi'i dargedu ar alluogi ystyriaeth o faterion a chyfleoedd amgylcheddol allweddol yn gynnar.

**Mae’r ddogfen hon a’r egwyddorion a nodir ynddi yn cyd-fynd â chyngor CNC sy’n ymwneud â gwaith asesu effaith, lliniaru a chydbwyso a allai fod yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.**

# Deddfwriaeth a pholisi

Mae'r **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** cyntaf, a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2019, yn cefnogi penderfyniadau integredig sy’n rhoi ystyriaeth lawn i faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac mae felly’n chwarae rhan allweddol wrth gyflawni amcanion Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ym moroedd Cymru.

O dan y pennawd “Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol”, mae'r cynllun yn nodi cyfres o bolisïau sy'n “hyrwyddo camau i warchod a gwella’r amgylchedd morol er mwyn sicrhau bod ecosystemau morol yn gydnerth a’u bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau’r dyfodol”.

Mae hyn yn cynnwys Polisi **ENV_01 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Ecosystemau morol cydnerth**, sy'n nodi:

> Wrth lunio cynigion, dylid dangos sut y mae effeithiau posibl ar ecosystemau morol wedi cael eu hystyried a dylai'r cynigion hynny, yn nhrefn blaenoriaeth:
>
> a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
> b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
> c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.
>
> Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, rhaid i gynigion gyflwyno achos clir a phendant o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion gwneud hynny.
>
> Anogir cynigion sy'n cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol.

Mae'r Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn egluro mai nod polisi ENV_01 yw "sicrhau bod elfennau biolegol a daearegol ecosystemau yn cael eu cynnal, eu hadfer pan fo angen a'u gwella os oes modd, er mwyn gwneud ecosystemau morol yn fwy cydnerth ac er mwyn iddynt fedru darparu rhagor o fanteision" ac mae felly'n rhoi cyfle i ystyried cynnwys gwaith adfer a gwella mewn prosiect datblygu.

Mae Arweiniad Cyflawni Llywodraeth Cymru Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu rhai enghreifftiau o waith adfer a gwella y gellid eu hystyried o dan y polisi hwn ac yn cyfarwyddo defnyddwyr cynlluniau morol i ymgysylltu ag CNC am gyngor:

> "Anogir cynigion sy'n cyfrannu at adfer neu gyfoethogi ecosystemau morol. Nid yw ymgorffori gwaith adfer a/neu gyfoethogi ecosystemau morol yn y cynigion o reidrwydd yn fater drud neu gymhleth. Gallai gynnwys defnyddio deunyddiau gwahanol ar adeilad ar y blaendraeth fyddai'n denu amrywiaeth o rywogaethau i'w goloneiddio ar ôl ei adeiladu. Gall newidiadau bychan i adeiladau rhwng y ddau lanw fyddai'n caniatáu ffurfio cilfachau mewn pyllau neu walydd ar lanw isel yn hytrach na'u bod yn sychu'n llwyr ddarparu amgylchedd ychwanegol ar gyfer creaduriaid pyllau creigiog na fyddent fel arall yn gallu bodoli yno. Dylai cynigwyr drafod ag CNC am gyngor ar sut i gyfoethogi er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw gyfoethogiad yn addas."

# Cyngor CNC

Mae CNC yn rhoi cyngor statudol i ddatblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch diogelu (cynnal) bioamrywiaeth forol, yn enwedig mewn perthynas â chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir.

Fodd bynnag, mae cynnwys gwaith adfer a gwella fel rhan o ddatblygiadau morol yn ystyriaeth gymharol newydd i ddatblygwyr, i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac o ran cyngor gan CNC.

Fel rhan o'n rôl gynghori, rydym wedi datblygu set o bum egwyddor graidd ynglŷn â gwaith i adfer a gwella ecosystemau morol ac arfordirol er mwyn darparu man cychwyn ar gyfer trafodaethau ystyrlon gyda datblygwyr prosiectau.

# Egwyddorion craidd ar gyfer cynnwys gwaith adfer neu wella mewn cynnig datblygu morol neu arfordirol

## Egwyddor 1: Dylai gwaith adfer a gwella geisio cynyddu cydnerthedd ecosystemau morol

Anogir adfer neu wella cynefinoedd a rhywogaethau morol mewn ffordd briodol, yn unol â'r amgylchedd naturiol, i helpu i feithrin cydnerthedd ecosystemau morol yng Nghymru drwy gynyddu bioamrywiaeth a chefnogi swyddogaethau ecosystemau megis cylchu maethynnau, hidlo dŵr a diogelu'r arfordir.

## Egwyddor 2: Dylai gwaith adfer a gwella fod yn gyflawnadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir

Anogir cynigion sy'n ymgorffori dulliau sefydledig / seiliedig ar dystiolaeth o adfer a gwella, y gellir eu cynnal yn y dyfodol, i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at adeiladu cydnerthedd ecosystemau morol.

Mae cyfle hefyd i dreialu dulliau newydd ac arloesol o adfer a gwella o dan y polisi hwn, mewn ffordd na fyddai'n bosibl o dan ofynion rheoliadol eraill (megis ar ffurf cydbwyso o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a/neu bolisi ENV_02 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Ardaloedd Morol Gwarchodedig).

Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau nad yw gwaith adfer a gwella yn debygol o gael ei beryglu yn y tymor hwy, e.e. gan ddatblygiadau arfaethedig neu effeithiau newid hinsawdd a ragwelir.

## Egwyddor 3: Ni ddylai gwreiddio gwaith adfer a gwella mewn cynnig niweidio gweithgareddau gweithredol

Mae angen i ddatblygwyr allu parhau i gyflawni gweithgareddau gweithredol yn y tymor hwy, ac ni ddylai cyflawni gwaith adfer a gwella atal y rhain.

### Egwyddor 4: Gellir cyflawni gwaith adfer a gwella ar unrhyw raddfa ac mewn unrhyw leoliad

Nid oes angen i waith adfer a gwella fod yn gostus, yn gymhleth, ar raddfa fawr nac yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgaredd neu'r lleoliad y ceisir caniatâd ar ei gyfer er mwyn cyfrannu at wella cydnerthedd ecosystemau morol yng Nghymru.

### Egwyddor 5: Mae cyflawni gwaith adfer a gwella yn darparu cyfleoedd dysgu

Mae gwaith adfer a gwella ecosystemau morol yn gysyniad cymharol newydd o hyd. Mae'n bwysig bod: digon o gyfle a hyblygrwydd i ddatblygwyr ystyried gwahanol ddulliau; deialog effeithiol rhwng datblygwyr, rheoleiddwyr a chynghorwyr i ddatblygu syniadau; a gwaith monitro priodol a chymesur ar waith i ddysgu o'r camau a gymerir i lywio canllawiau ac arferion gorau yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ecosystemau morol ac arfordirol, lle gall y sylfaen dystiolaeth fod yn dameidiog a lle nad yw'r dulliau cyflawni wedi'u sefydlu cystal.

## Gwaith ategol

Mae'r egwyddorion a nodir uchod yn ffurfio rhan o waith ehangach CNC, ac yn cefnogi'r gwaith hwnnw, i ddatblygu tystiolaeth, cyngor ac arweiniad i alluogi adferiad byd natur a gwella chydnerthedd ecosystemau morol ac arfordirol Cymru, gan gydnabod y cyfleoedd ar gyfer darparu buddion amgylcheddol a chymdeithasol lluosog.

Mae nifer o gynhyrchion ar gael ar hyn o bryd a all gefnogi ystyriaethau cychwynnol o ymgorffori gwaith adfer neu wella o fewn cynnig, gan gynnwys y canlynol:

- Ymchwil i nodi beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer adfer byd natur a lle y gellir canfod y cyfleoedd hynny,  e.e.
    - Adfer cynefinoedd morol ac arfordirol yng Nghymru: adnabod cyfleoedd gofodol a'u buddion (554)
    - Cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:
- Datblygu dealltwriaeth o'r ystod o fanteision sy'n deillio o adnoddau naturiol morol sydd yn cael eu cynnal gan fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, e.e.
    - Amcangyrif Potensial Dal Carbon Amgylchedd Morol Cymru (428)

Yn ogystal, rydym yn parhau i roi cyngor ar brosiectau sy'n canolbwyntio ar y gwaith o adfer a gwella ecosystemau morol ac arfordirol yng Nghymru, ac sy'n cyflawni'r gwaith hwn, ac rydym yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid yng Nghymru a'r DU i ddatblygu tystiolaeth ac arferion gorau.

# Rhagor o wybodaeth

Darllenwch ein canllawiau ar gyfer datblygwyr morol .

Mwy  o wybodaeth am ein Gwasanaethau Datblygu, Cynllunio a Morol a Thrwyddedu Morol.

Archwiliwch ein hadroddiadau tystiolaeth morol ac arfordirol.

Cliciwch yma i weld ein Datganiad Ardal Morol.

Gallwch ddarganfod mwy am gynllunio morol yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru.